## CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 13eg Mawrth, 2023**, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Michael Strain, Efan Thomas, Carys E. Williams, Iwan J. Williams, Glenys Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Gwenan Griffith, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

106. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** yr Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

107. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

108. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg CHWEFROR, 2023**

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Chwefror, 2023. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(A)Eitem 94 – Cymal (C) Eitem 87 – Is-bwyllgor Cyllid (tud. 1) a Chymal (ch) Cronfa Cofid 19 – Llyn ac Eifionydd (tud. 2)**

**Adroddwyd** fod ymholiadau wedi eu gwneud gyda AHNE Llyn ac er fod y ffenestr yn agored hyd 10fed Mawrth penderfynwyd peidio symud ymlaen gydag unrhyw gais hyd y flwyddyn ariannol nesaf. Ymchwiliwyd lle i archebu potiau blodau plastig a hysbysfyrddau ac hefyd derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd lle maent hwy yn archebu eu llochesi bws. Rhanwyd y wybodaeth yma gyda'r aelodau gyda'r rhaglen.

O berthynas i osod y potiau blodau mewn pentrefi awgrymwyd y dylid cysylltu â Chyngor Gwynedd er derbyn arweiniad a oedd angen cael caniatad. Hefyd gyda'r lloches bws bwriededig ger Meddygfa Rhydbach, gofynnwyd i'r Clarc wneud ymholiadau gyda'r adran cynllunio yng Nghyngor Gwynedd er canfod a oedd angen gnweud cais cynllunio ac hefyd anfon at y Rheolwr yn y Feddygfa am ei farn yntau ar y safle.

**Penderfynwyd** nodi'r uchod.

**(B)Eitem 96 – Materion Ffyrdd a Llwybrau – cymal (ch) cŵyn o Fotwnnog**

**Adroddodd** y Clarc iddi gysylltu a'r Heddwas oedd yn gweithredu dros Ben Llŷn ac addawodd y byddai'n ymweld a chadw golwg ar y sefyllfa gor-yrru ym Motwnnog.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

**(C)Eitem 104 – Cyfarfod o Bwyllgor Ardal/Dwyfor o Un Llais Cymru**

**Cyflwynwyd** Pecyn Cymorth i helpu Cynghorau i asesu a yw eu gweithdrefnnau ariannol yn gweithio'n iawn – gan fod y pecyn yn 106 o dudalennau rhoddwyd linc i bob aelod gael ei weld.

**Penderfynwyd** fod is-bwyllgor yn cyfarfod i fynd drwy'r pecyn ac hefyd i ystyried y ddogfen ar gynllun hyfforddiant. Aelodaeth yr is-bwyllgor – Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, Y Cynghorwyr Carys H. Evans a Glenys Williams.

109. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** cais C23/125/32/RC – cais ar gyfer dileu cytundeb 106 ar gyfer sicrhau defnydd o dŷ unllawr ar gyfer defnydd amaethyddol – Pentir, Bryncroes.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eilwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

110. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd** anfon at y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd i ofyn am i'r bin halen ym mhen lon Chwarael Nanhoron gael ei llenwi.

**Yn y cyswllt hwn** derbyniwyd gwybodaeth gan y Peiriannydd Ardal Dwyfor fod rhan o'r ffordd o Gapel Rhychbach, Botwnnog am Faedre yn cael ei chau am ddiwrnod ar 29ain Mawrth, 2023.

111. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** gwneud y taliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Archwilio Cymru | £472.00 (200773) |
| Y Clarc | £372.55 (200774) |
| HMRC | £ 93.20 (200775) |
| Llanw Llŷn | £ 9.00 (200777) |
| Taliadau am hurio ystafelloedd: | |
| Canolfan Bryncroes | £ 40.00 (200778) |
| Festri Capel Rhyd Bach, Botwnnog | £ 20.00 (200779) |
| Festri Capel Hebron, Llangwnnadl | £ 20.00 (200776) |
| Neuadd Goffa Sarn | £ 20.00 (200780) |

111. **CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**

**Adroddwyd** fod Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd) wedi derbyn cais gan Brifathrawes Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog, yn holi a fyddai'r Cyngor yn cysidro rhoi cyfraniad ariannol tuag at gael stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

**Penderfynwyd** gohirio i'r cyfarfod nesaf er cael mwy o wybodaeth.

112. **GWAITH BARBIO 2023-24**

**Agorwyd** dau dendr gan y Cadeirydd yng ngŵydd y Cyngor yn unol â rheol 65 o'r Rheoliadau Sefydlog. Sylwyd fod y ddau ddyfynbris yn agos iawn i'w gilydd, £150 o wahaniaeth yn y gwaith o dorri Comin Bryncroes a phris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus ac unrhyw waith ychwanegol yn .50c yr awr yn fwy gan un o'r tendrwyr.

Trafodwyd y ddau bris a **phenderfynwyd**

(a) derbyn pris J.A. Pozzi, Ger Llwyn, Rhydyclafdy fel a ganlyn:

Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwnning (y fynwent newydd lle maeond ychydig o feddau yn y pen draw); **y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2023, a'r gwellt i'w glirio oddi yno - £550 + TAW**

Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) amgyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2021**); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2023, a'r gwellt i'w glirio oddi yno - £1050 + TAW**

Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£17 + TAW yr awr.**

**Nodwyd** mai nid y tendr hwn oedd y tendr isaf ond gweithredwyd yn unol â rheol 66 o'r Rheoliadau Sefydlog, sef "ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf." Y rhewm am ddod i'r penderfyniad yma oedd fod Mr. J.A. Pozzi wedi gweithio i'r Cyngor am nifer o flynyddoedd bellach ac 'roedd safon ei waith bob amser yn arbennig o

dda. Hefyd teimlwyd nad oedd digon o wahaniaeth yn y ddau dendr i newid ymgymerwr ac hefyd na ddylid rhoi un rhan o'r gwaith i un ymgymerwr a'r rhan arall i'r ymgymerwr arall – byddai hyn yn cymhlethu pethau gan mai fel un tendr yr hysbysebwyd y gwaith.

**Nodyn pellach** – Er fod un pris heb TAW a'r pris dderbyniwyd gyda TAW yn ychwanegol, 'roedd y Cyngor yn gallu ad-hawlio'r arian yma'n ôl.